Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Adroddiad i'r:	**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
Dyddiad y Cyfarfod:	**15 Hydref 2024**
Teitl:	**Cofrestr Risgiau Corfforaethol**
Pwrpas yr adroddiad:	**Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol**
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet	**Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod y Cabinet ar gyfer Polisi, Perfformiad, Partneriaethau a Gwasanaethau Democrataidd**

Rhoddir adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch Cofrestr Risgiau Corfforaethol y Cyngor i roi gwybodaeth a sicrwydd parhaus bod y risgiau a nodwyd gan uwch reolwyr yn cael eu rheoli'n briodol. Mae hyn yn atgyfnerthu rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o ran rhoi sicrwydd annibynnol i'r Cyngor bod y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael ei rheoli'n briodol.

Cynhaliwyd adolygiad o statws risg diweddaraf yng nghyfarfod y Grŵp Arweiniol ar 18.09.24 lle trafodwyd a chytunwyd ar ymgeiswyr ar gyfer dyrchafu / israddio'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

Isgyfeiriwyd o gorfforaethol i wasanaeth Dim

Uwchgyfeiriwyd o wasanaeth i gorfforaethol Dim

Newidiadau i'r sgoriau risg corfforaethol

O ganlyniad i gamau g lliniaru llwyddiannus, mae'r risg gorfforaethol newydd R025: Mesurau Diogelwch ac Amddiffyn Tân yn Eiddo'r Cyngor wedi gostwng o 25 i 20.
Mae'r holl risgiau eraill wedi'u hadolygu ac roeddynt yn cynnwys statws RAG diwygiedig ar gyfer y camau lliniaru ac roedd y sylwadau wedi'u diweddaru.

Mae Atodiad A yn cynnwys y Gofrestr Risgiau Corfforaethol diweddaraf. Mae dyddiadau adolygu diweddaraf y Pwyllgor Craffu ar gyfer risgiau yn y dyfodol wedi'u cynnwys ar y dudalen grynodeb.

Argymhelliad: Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol wedi'i diweddaru

Rheswm dros y penderfyniad:	**Sicrhau bod y Cyngor yn rheoli'r Risgiau Corfforaethol cyfredol yn briodol yn unol â'r Strategaeth a'r Fframwaith Risg Corfforaethol**
Atodiadau:	Atodiad A – Cofrestr Risgiau Corfforaethol
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Alun Williams (Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd)
Swyddog Adrodd:	Alun Williams (Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd)
Dyddiad:	**18 Medi 2024**